



Mentergarwch ac Entrepreneuriaeth

Adolygiad Effaith Ionawr 2022 – Awst 2022

Mae Coleg Gwent wedi ymrwymo i hyrwyddo a chyflymu creu menter a gwella sgiliau entrepreneuraidd ymhlith ein cymuned ddysgu.

Gyda chymorth cyllid Llywodraeth Cymru, mae gan ein dysgwyr mynediad at sgysiau rheolaidd gan fodolau rôl ysbrydoledig ac arbenigwyr busnes, heriau menter rhyngolegol, cyfeiriadau tuag at gyfleoedd ariannu a thwf, a chymorth 1 i 1 ar gyfer datblygu eu syniadau a'u galluoedd busnes. Cynlluniwyd ein ffocws strategol o amgylch meysydd cyflawni'r Strategaeth Entrepreneuriaeth leuenctid:

- **Galluogi** ein staff i hyrwyddo entrepreneuriaeth o fewn eu pwnc neu adran
- **Ymgysylltu** dysgwyr gyda mentrau a gynlluniwyd i godi ymwybyddiaeth o entrepreneuriaeth.
- **Grymuso** dysgwyr gyda gweithgareddau i helpu datblygu eu gallu entrepreneuraidd
- **Darparu'r** sgiliau a'r cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a lansio eu syniadau busnes.

Mae Coleg Gwent yn cyfrannu'n rhanbarthol at uchelgeisiau Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru er mwyn hybu twf economaidd a darparu swyddi i bobl ifanc. Rydym yn Goleg Gyrfa, a gweithiwn yn agos gyda diwydiant er mwyn diwallu anghenion busnesau rhanbarthol a'u cadwyni cyflenwi. Mae mentergarwch ac entrepreneuriaeth yn amcanion allweddol, ac rydym yn cymryd golwg holistaidd ar ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd trosglwyddadwy ein dysgwyr a all fod o fudd i'r unigolyn ac i'r economi leol..

2022 mewn rhifau...



o ddysgwyr **yn cymryd rhan** mewn mentergarwch a mentrau a digwyddiadau er m wyncodi ymwybyddiaeth am entrepreneuriaeth



o ddysgwyr **yn cael** y cymorth a'r o cyfleoedd i brofi, dilysu neu lansio eu syniadau busnes



o ddysgwyr **yn cael eu grymuso** i archwilio eu sgiliau a'u galluoedd entrepreneuriaidd a'u rhoi ar waith



o staff **yn galluogi** entrepreneuriaeth o fewn eu pwnc neu adran academiaidd



Ein nod yw...

Hwyluso uchelgeisiau entrepreneuriaidd a chefnogi busnesau myfyrwyr ar bob cam o'u taith sefydlu.

Annog cymuned y coleg i ddarparu amgylchedd mentrus a chefnogol.

Ysbrydoli myfyrwyr gyda chyfleoedd i gyfarfod a chlywed straeon entrepreneuriaid lleol.

Datblygu a meithrin galluedd dysgwyr, gan eu helpu i adnabod a harneisio nodweddion entrepreneuriaidd efallai nad ydynt yn ymwybodol eu bod yn meddu arnynt yn barod.

Cymell ein myfyrwyr i ddilyn eu huchelgeisiau entrepreneuriaidd ac i ystyried hunangyflogaeth fel gobaith realistig.

Ein strategaeth yw...

Darparu ystod o adnoddau cymysg a theilwredig gan gynnwys gwybodaeth, taflenni gwaith, sgysrsiau gwadd a gweithdai er mwyn cefnogi cyflogadwyedd yn sownd yn y cwricwlwm.

Darparu'r cyfle i bob dysgwr fynychu digwyddiad mentergarwch a chyflogadwyedd, cynhyrchu cynllun gyrfa neu fusnes, ac ymgysylltu â chyngor gyrfaedd i'w helpu i baratoi ar gyfer y byd gwaith.

**Sgiliau
cyflogadwyedd**

**Adnabod
cyfleoedd**

**Gwytnwch ac
annibyniaeth**

**Gwerth
cymdeithasol**

**Arloesedd a
chreadigaeth**

Cydweithio

Cyfathrebu

**Teimlo eich bod
yn cael eich
gwerthfawrogi**

Arweinyddiaeth

Digwyddiadau a Chystadlaethau...

Mae ein cystadlaethau rhyng-golegol wedi parhau ar-lein, ac maent yn dychwelyd i ddigwyddiadau wyneb yn wyneb yn raddol.

Enillwyr Rhanbarthol Cystadleuaeth Tîm Menter yr Ifanc

Fe wnaethom gefnogi dau grŵp o ddysgwyr i gymryd rhan yn y Rhaglen Menter yr Ifanc, gan redeg stondinau ar y campws yn gwerthu eu cynnyrch. Roedd gan dîm ILS standin yng Ngholeg Crosskeys a oedd yn gwerthu eu celf a chreffftwaith yn seiliedig ar grochenwaith. Roedd gan y dysgwyr Busnes yn nhîm Re-retro'd ym Mharth Dysgu Blaenau Gwent standin yn y digwyddiad Iechyd a Lles, yn gwerthu dillad ail-law yr oeddent wedi'u huwchgylchu. Rhedodd y ddau standin yn llwyddiannus, gyda'r ddau yn gwneud elw ac yn rhoi cyfle i'r dysgwyr weld eu syniadau busnes yn dod yn fyw. Mae'r grŵp ILS yn bwriadu cynnal rhagor o stondinau hyd at ddiwedd y flwyddyn goleg.

Agorodd dysgwyr ILS siop elusen dros dro ar gyfer Gofal Hosbis Dewi Sant, a daethant yn Enillwyr Rhanbarthol Cystadleuaeth Tîm Menter yr Ifanc. Sefydlodd dysgwyr Sgiliau Byw'n Annibynnol (ILS) Parth Dysgu Blaenau Gwent siop manwerthu elusennol dros dro i gefnogi Gofal Hosbis Dewi Sant. Y myfyrwyr a staff yr adran ILS ar gampws Glynebwy yn unig oedd yn rhedeg y siop, a gweithion nhw'n galed i sefydlu, stocio a rhedeg eu siop manwerthu eu hunain. Ar agor bob dydd Mercher, roedd y siop yn cynnwys nwyddau bron yn newydd a werthwyd i fyfyrwyr a staff ar y campws.

Cafodd dysgwyr y cyfle i gymryd rhan a chwarae rhan weithredol mewn llwyddiant y siop. O lanhau'r nwyddau, pentyrru ac arddangos eitemau i ymdrin â gwerthiannau a mantoli'r arian; mae myfyrwyr yn dysgu hanfodion menter, ac mae'r cyfan ar gyfer achos da iawn.

Roedd y siop dros dro yn gwerthu eitemau brand gan gynnwys crysau-t a bandiau arddwrn o Hosbis Dewi Sant, yn ogystal ag eitemau a roddwyd i'r hosbis megis llyfrau, DVDs, cryno ddisgiau, gemwaith, setiau anrheg a dillad. Rhoddwyd bagiau rhodd o Hosbis Dewi Sant hefyd i fyfyrwyr a staff yn y coleg i'w llenwi â nwyddau diangen, ac roeddent yn gallu eu gollwng mewn basged roddion ym Mharth Dysgu Blaenau Gwent i helpu ail-stocio'r siop.

Aeth yr holl arian a godwyd gan y siop elusen dros dro tuag at waith Hosbis Dewi Sant, ein helusen ddewisedig yn 2021/2022.



Enillwyr Medalau Arian Cystadleuaeth Sgiliau Cymru

Ymgwymerodd 149 o ddysgwyr Coleg Gwent â her Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2022, gan arddangos eu medrau, eu galluoedd, eu cymhwysedd a'u gwybodaeth mewn sawl maes. Fel coleg, rydym yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau ar draws sawl sector, a adlewyrchir yn y categorïau sgiliau y mae ein dysgwyr wedi dewis cystadlu ynddynt eleni.

Maent wedi cystadlu yn erbyn cannoedd o fyfyrwyr o golegau ar draws y wlad mewn ystod eang o gystadlaethau sgiliau, gan ddod â 35 o fedalau aur, arian ac efydd adref i gydnabod eu doniau!

Mae Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yn gyfle i'n dysgwyr herio eu hunain a gwithio eu ffiniau i wella eu sgiliau yn eu dewis o yrfa. Trwy gymryd rhan, maent yn codi lefel eu sgiliau ac yn tyfu'n bersonol ac yn broffesiynol.

Enillodd 5 myfyriwr fedal arian ar gyfer Menter yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru 2022. Cystadleuaeth tîm yw hon, sydd wedi'i chynllunio i herio sgiliau entrepreneuriaidd pob cyfranogwr. Mae cwmpas y gystadleuaeth yn galluogi dysgwyr i ddatblygu a rhoi amrywiaeth o sgiliau ar waith sydd eu hangen i fod yn entrepreneur llwyddiannus.

TEnillydd Grant Tafflab – Rhys Edmunds

Uchafbwynt allweddol ym mis Mawrth 2022 oedd cyfarfod ag un o enillwyr grant Tafflab, y dysgwr Rhys Edmunds a'i fentor, a thrafod ei fusnes newydd. Yn ddiweddar mae wedi ennill y fedal Aur yng Nghystadleuaeth Worldskills (o tua 500 o ddysgwyr) ar gyfer Hyfforddiant Corfforol. Mae wedi creu fideo hyrwyddo gwych er mwyn marchnata ei fusnes.

[PT Rhys Edmunds Promo - YouTube](#)



Gwobr Ysgolion Entrepreneuriaidd Cyngor Caerffili

Enwebwyd Tîm Menter a Chyflogadwyedd Coleg Gwent ar gyfer y wobr uchod.



Cefnogi hapddalwyr

Sicrhaodd partneriaeth â'n hapddalwyr menter allanol amrywiaeth o gyfleoedd, cysylltiadau proffesiynol, a modelau rôl entrepreneuriaidd. Mae'r cymorth hwn, yn ogystal â'r rhwydwaith cydweithredol ledled Cymru, yn ein galluogi i weithio fel rhan o eco-system entrepreneuriaidd ar gyfer addysg. Mae'n rhoi'r gallu i ni ddarparu cyngor a gwybodaeth i ddysgwyr, cymorth busnes gyda ffocws pendant, ac amrywiaeth o ddigwyddiadau a sgysiau gwadd. Roedd pynciau yn 2022 yn cynnwys meddylfryd twf, adnabod eich cwsmer, camau at frandio a chyflwyno eich hun.

TM **Tim Monckton**
Mar 7

Big Ideas Wales have some great webinars coming up in March for people interested in starting a business:

17th March, 12 - 2pm: *4 Steps to Branding*

24th March, 10am - 12pm: *Planting a Great Idea: Helping your Gardening Side-line Grow*


29th March, 5.30 - 7.30pm: *TikTok – Tick List and Trends*

All the webinars are free.

To sign up for them, [Business Wales Events Finder](#) - [Big Ideas Wales](#), [B](#), [Event organisers](#) (business-events.org.uk)

Thanks.

Natwest also support our HE Creative and Employability week offering sessions on Power Up Mindset and pitching.





Mae'r fenter hon yn rhan o'n brandio newydd, Uchelgeisiau CG, lle mae'r holl gymorth sy'n ymwneud â hyrwyddo uchelgeisiau dysgwyr a llwybrau dilyniant yn cael eu hwyluso gyda'i gilydd, a'u cynnal ar yr un safle ar fewnrwyd y dysgwyr, CG Connect.



Ar y cyd â'n cyllid gan y Ganolfan Gyflogaeth, rydym wedi gallu cynllunio ar gyfer defnyddio trelar newydd sbon a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer menter i'r dysgwyr hynny sy'n dymuno profi masnach ac arddangos, neu i'n hyrwyddwr menter gynnal cymorth cynllunio busnes.



coleggwent.ac.uk



Dysgu Cyfunol a Digwyddiadau...

Mae cymorth digwyddiadau mewnol wedi cynnwys ffeiriau llesiant a dilyniant, a'n 'Haf y Sgiliau', lle rydym yn annog ein dysgwyr i roi eu gwyliau haf ar waith i gynllunio busnes neu yrfa ac yn rhoi'r cynnwys a'r cymorth iddyn nhw ddechrau arni.

Digwyddiadau Dilyniant

Mynychodd dros 2,800 o ddysgwyr ein digwyddiadau dilyniant ar draws Parth Dysgu Torfaen, Parth Dysgu Blaenau Gwent a champws Crosskeys. Fe wnaeth y digwyddiadau Dilyniant helpu myfyrwyr i ddeall y gwahanol lwybrau y gallant eu cymryd ar ôl gadael y coleg, a chaniatáu iddynt ofyn cwestiynau ac archwilio pob opsiwn. Cafodd myfyrwyr y cyfle i rwydweithio gyda phrifysgolion a chyflogwyr yn cwmpasu ystod o sectorau diwydiant gan gynnwys peirianeg, gweithgynhyrchu, gofal iechyd, cyllid, TG, lletygarwch ac arlwyio. Hyrwyddwyd nifer o gyfleoedd prentisiaeth a chyflogaeth fel rhan o'r digwyddiad.

Digwyddiadau dilyniant dysgwyr

Yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill, byddwn yn cynnal tair ffair ddilyniant er mwyn i ddysgwyr gael archwilio'r dewisiadau sydd ar gael iddynt ar ôl y coleg. Gall hyn olygu symud ymlaen at gwrs arall, addysg uwch, prentisiaeth neu gyfleoedd gyrfa.

Mae Coleg Gwent yn ymroi i gefnogi ein dysgwyr i gyflawni eu hamcanion ac ehangu eu gorwelion. Cenhadaeth ein coleg yw 'newid bywydau drwy ddysgu' ac mae helpu dysgwyr i symud ymlaen yn rhan hanfodol o'n hamcanion.

Mae'r digwyddiadau wedi'u hanelu at ddysgwyr L3 Blwyddyn 1, ond mae croeso i unrhyw ddysgwyr sydd â diddordeb, a dylid eu cefnogi i fynychu. Bydd mwy nag 20 o brifysgolion yn bresennol ar gyfer y rhai sy'n ystyried addysg uwch, ynghyd ag amrywiaeth o gyflogwyr, ac arweiniad ynghylch cyllid myfyrwyr, ymgeisio am swyddi, prentisiaethau a dechrau busnes.

Gwahoddir tiwtoriaid i fynychu gyda'u dysgwyr, fel grŵp. Archebwch y slot amser sydd orau gennych drwy'r LSO perthnasol.

Learners Progression Event - BGLZ

It's Coleg Gwent Learner's Progression Event today at BGLZ, another great opportunity for students to engage and network with a number of employers and universities. Thanks to Office of National Statistics, My Care My Home, CITB, GAVO, Torfaen County Council Social Care, Menter Laith, Stagecoach, ABUHB, Urdd, Educators Wales, Welsh Ambulance, Digital Health & Care Wales and School of Thought, (automotive). Please do come and visit today from 10 am - 3 pm.



Sioe deithiol iechyd a llesiant

O fis Mawrth tan fis Mai, byddwn yn cynnal sioe deithiol iechyd a llesiant i roi'r cyfle i ddysgwyr a staff siarad â gwahanol bobl a sefydliadau sy'n gallu helpu gydag iechyd a llesiant.

Bydd y digwyddiad yn cynnig cymysgedd o weithgareddau am ddim, asesiadau iechyd a gwybodaeth gan amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau, elusennau ac unigolion yn eich ardal chi.

Gofynnwn i'r holl staff archebu lle i'w dysgwyr yn y digwyddiadau hyn ar eich campws. I wneud hyn, archebwch y slot amser sydd orau gennych drwy'r LSO perthnasol.



Haf y Sgiliau - Paratowch ar gyfer Eich Dyfodol

Nod ein gweithgareddau Haf y Sgiliau yw cefnogi ein dysgwyr i gymryd eu cam cyntaf tuag at eu gyrfaedd dewisol gyda'r nod o wella eu cyflogadwyedd drwy ystod eang o adnoddau sgiliau trosglwyddadwy a gweithgareddau a gynigir yn ystod misoedd yr Haf. Mae datblygu set graidd o sgiliau a galluoedd y gall ein myfyrwyr eu rhoi ar waith mewn amrywiaeth o rolau a diwydiannau yn hanfodol i helpu ein dysgwyr sefyll allan a chefnogi cyfleoedd dilyniant yn y dyfodol. Mae cynnwys ar fentergarwch wedi'i ddylunio a'i uwchlwytho, a bydd ar gael i ddysgwyr dros yr haf.

O gymorth gydag ymarfer technegau cyfweiliad ac ysgrifennu CVau, cyrsiau byr a chyfleoedd am swyddi a gwirfoddoli dros yr haf, roedd llawer o sesiynau y gallai myfyrwyr gofrestru ar eu cyfer, a phecynnau cymorth ac adnoddau i gynorthwyo dealltwriaeth o yrfaedd a'r byd gwaith. Yn ogystal â'r uchod roedd cyngor i'r rhai oedd â diddordeb mewn cychwyn eu busnes, gyrfa lawrydd neu fenter gymdeithasol eu hunain.



Wythnos Cychwyn Busnes yr Haf



Rydym wedi parhau i gefnogi 'Cychwyn Busnes Haf', y grŵp menter arobryn Cymru gyfan yn 2022. Wedi'i gyflwyno gan rai o'r entrepreneuriaid a'r arbenigwyr mwyaf disglair yng Nghymru, gyda chymysgedd o weithdai rhyngweithiol, trafodaethau panel a sesiynau holi ac ateb byw, yn cwmpasu popeth o ymchwil a marchnata i lif arian a chyllid, elfennau allweddol sydd eu hangen ar gyfer busnes, gyrfu lawrydd neu fenter gymdeithasol lwyddiannus.

Cawsom ddysgwyr yn mynychu yn ystod yr wythnos, a sesiwn a gyflwynwyd gan Zoe Blackler 'rhwydweithio proffesiynol' ac 'amser i weithredu'. Cafodd dwy sgwrs gan fodel rôl BIW eu cynnwys hefyd fel rhan o'r gweithgareddau wythnos o hyd.




Tim Monckton
Jun 8

Have you got a business idea? Not sure where to start?
Summer Start-Up week can help!



Wythnos Cychwyn Busnes yr Haf / Summer ...
352 Tweets



Luckily, our friends @BigIdeasWales are hosting a number of follow-on workshops for SSUW goers 🥰 Check your emails to find out more!



Wythnos Gyrfaoedd

Dathlodd Coleg Gwent Wythnos Genedlaethol Gyrfaoedd gydag wythnos yn llawn gweithgareddau. Mae'r digwyddiadau'n canolbwyntio ar y sgiliau y mae myfyrwyr yn eu dysgu yn y coleg i'w paratoi ar gyfer y gweithle.

Mae Wythnos Genedlaethol Gyrfaoedd 2022 yn ddathliad o ganllawiau gyrfaoedd ac adnoddau addysg rhad ac am ddim ledled y DU. Y nod yw darparu ffocws ar gyfer gweithgareddau ynglŷn â chanllawiau gyrfaoedd ar gam pwysig yn y calendr academiaidd er mwy helpu i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael addysg.

Thema eleni oedd 'Grymuso Newid Cadarnhaol trwy Addysg Gyrfaoedd'



Danielle Hubbard
Mar 8

Wythnos Genedlaethol Gyrfaoedd

Cyn bo hir ar gampws yn lleol i chi!! Fel rhan o Wythnos Genedlaethol Gyrfaoedd, mae'r Tîm Menter a Chyflogadwydd yn ymweld â phob campws. Dewch i'n gweld am wybodaeth, cymorth gyrfaoedd yn ogystal â rhai gemau hwyliog.

Dydd Mawrth - Newport
Dydd Mercher - Usk
Dydd Iau - TLZ
Dydd Gwener - Crosskeys

National Careers Week

Coming to a campus near you!! As part of National **Careers Week**, the Enterprise & Employability Team is visiting each campus. Come and find us for information, career support as well as some fun games.



Dangosiad Gwallt a Harddwch 2022

Cafodd myfyrwyr gwallt a harddwch, therapi cyflenwol a cholur theatrig gyfle i gwrdd â chyflogwyr yn Dangosiad Gwallt a Harddwch a gynhaliwyd yng Ngwesty Cwrt Bledlyn.

Roedd arweinwyr seminar a chynrychiolwyr o wahanol gyflenwyr cynnyrch a chyflogwyr wrth law i drafod y diwydiant gyda'n myfyrwyr a rhoi eu mewnwelediad gwerthfawr. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys symud ymlaen i astudiaeth bellach, a bod yn hunangyflogedig. Mynychodd 122 o ddysgwyr y digwyddiad a rhoddodd gyfle i fyfyrwyr a oedd am symud ymlaen i gwrs arall yng Ngholeg Gwent i archwilio opsiynau, cyfarfod â thiwtoriaid yn ogystal â phrofi seminarau ar opsiynau o Hunangyflogaeth a sut i sefydlu BBaCh.

Denodd y Dangosiad gwmnïau fel Celtic Manor Resort, Olapex, Bryn Meadows Golf, Hotel & Spa, nspa Beauty a Colorwow Hair – cyfle gwych i fyfyrwyr Coleg Gwent ryngweithio â darpar gyflogwyr.

Cytunwyd ar Drosfeddiannu Cyfryngau Cymdeithasol gydag adran farchnata Coleg Gwent fel y gallai dysgwyr greu postiadau a hashnodau eu hunain ynglŷn â'r digwyddiad, a byddai'r un buddugol a ddewiswyd yn cael ei ddefnyddio ar draws sianeli cyfryngau cymdeithasol Coleg Gwent. Creodd rhai dysgwyr fideos ar TikTok ynghyd ag ystod o gyflwyniadau creadigol ac arloesol.



29 views

laurajellybean Come along with us on the Coleg Gwent career exhibition at the maes manor #coleggwent #careerexhibition #olaplex #careerswales #brynmedows #celticmanor #moroccooil #matrixcolor #tanyawhitebits #nspa #ita10haircare #coleggwentcrosskeys #coleggwenthair #coleggwentbeauty #coleggwentebbwale #coleggwentnewportnash @olaplex @nspabeauty @moroccanoil_uk @thecelticmanor @matrix @colorwowhair @brynmeadowsgolfhotelspa @coleggwent

